

Cynigion arbennig a mynediad am ddim i atyniadau treftadaeth y gwanwyn hwn

11/03/2025



Ymwelwyr yn Amgueddfa Florence Nihtingale, sy'n cynnig mynediad am ddim fel rhan o'r wythnos. Mae Wythnos Agored y Loteri Genedlaethol yn rhedeg o ddydd Sadwrn 15 i ddydd Sul 23 Mawrth 2025, gyda channoedd o leoliadau treftadaeth yn cymryd rhan.

Archwiliwch y gorffennol mewn tai hanesyddol, cestyll ac amgueddfeydd neu cofleidiwch natur yn ei holl ogoniant mewn llawer o fannau rhyfeddol bywyd gwyllt mis Mawrth eleni.

I ddweud diolch am y £30 miliwn a godir ar gyfer achosion da gan chwaraewyr bob wythnos, mae lleoliadau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn cynnig mynediad am ddim, gostyngiadau a bargeinion arbennig. Gyda mwy na 700 o gynigion ar gael, y cyfan sydd ei angen arnoch i ddechrau anturio yw tocyn Loteri Genedlaethol neu gerdyn crafu!

Ble byddwch chi'n ymweld?

Mynediad am ddim

Mae cannoedd o safleoedd a lleoliadau'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol** yn agor eu drysau am ddim gan gynnwys Sutton Hoo yn Suffolk, Castell a Gardd Powis yng Nghymru, A La Ronde yn Exmouth a Florence Court yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Alban yn cynnig mynediad am ddim i lefydd fel The Hill House, Mackintosh yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Willow a Glencoe.

Ewch ar daith am ddim i safleoedd rhagorol **English Heritage** gan gynnwys Neuadd, Castell a Gerddi Belsay, Castell Dover a Chastell Pendennis.

Ewch allan i archwilio **gwarchodfeydd natur yr RSPB** fel Titchwell Marsh, Conwy a Old Moor.

Gallwch hefyd gael mynediad am ddim i:

- Parc Cerfluniau Swydd Efrog
- Amgueddfa Man Geni Robert Burns
- Amgueddfa Florence Nightingale
- Prosiect Eden
- Amgueddfa Byw y Black Country
- Amgueddfa Trafnidiaeth Ulster

Teithiau tywys am ddim



Mae Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru yn darparu teithiau tu ôl i'r llenni.

Ewch yn ddramatig yn theatr Old Vic Bryste, rhowch het galed ymlaen yn The Winter Gardens yn Great Yarmouth neu ewch ar daith yn Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru.

Bargeinion 2-am-1 a 50% i ffwrdd

Camwch i mewn i hanes yn yr eiconig Tŷr Llundain, darganfyddwch straeon yng Nghastell Hillsborough, dysgwch dreftadaeth chwaraeon moduro yn Silverstone neu olrhain hanes y gêm hardd yn Amgueddfa Bêl-droed yr Alban, i gyd gyda gostyngiad o 50% i ffwrdd.

Mae safleoedd fel Amgueddfa Ysgol Ragged ac Amgueddfa ac Oriel Gelf Tullie yn cynnig borgen 2-am-1.



Chwaraewyr y Loteri Genedlaethol yn cael mynediad arbennig i Brofiad Archeoleg Ditectif Amser yn y Baddonau Rhufeinig. Credyd: Petra Mirosevic-Sorgo.

Cynigion arbennig

Ymwelwch â Harewood House gyda thocynnau £5, mynnwch nwyddau hanner pris yn y bad achub hanesyddol Syr Samuel Kelly, cewch sgwrs seren am ddim yn Arsyllfa Kielder neu cymerwch ran mewn profiad archaeoleg cyffrous yn y Baddonau Rhufeinig.

Dewch o hyd i gynnig yn eich ardal chi

Archwiliwch yr holl gynigion sydd ar gael yn ystod yr Wythnos Agored ar [wefan y Loteri Genedlaethol](#).

[Cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr](#) i glywed am gyfleoedd fel hyn yn y dyfodol.



arddeb hefyd mewn ...

[Maps, photos and records from Rotherham's community archives. Credit: Rotherham Archives and Local Studies.](#)



[ries from across the UK](#)

[Joanna Jarvis , Imogen Watmore, Ashlynn Hudson-Welburn and Harvey Barker holding Pride banner in front of HST loco in Great Hall, National Railway Museum, \(NRM\) York. © The Board of Trustees of the Science Museum.](#)



[om railway history](#)

Sun rising on Jumbo in Colchester. Photo: Chris Gorman.

£27million awarded to save seven lesser-known UK heritage treasures